# A Charter for Strengthening Relations Between Paid Staff and Volunteers

This Charter sets out the key principles on which volunteering is organised and how good relations between paid staff and volunteers are built. It has been developed jointly by Wales Council for Voluntary Action (WCVA) and Wales Trades Union Congress (Wales TUC).

Paid work is any activity that is undertaken at the direction of an employer and is financially recompensed. Volunteering is freely undertaken and not for financial gain; it involves the commitment of time and energy for the benefit of society.

## Our volunteering tradition

There is a strong tradition in Wales of mutual support and reciprocity. This is at the heart of our social fabric.

It is estimated that some 1.1 million people volunteer within an organisation each year, contributing around £1.6bn to the Welsh economy (WCVA Statistical Resource 2010). Volunteering helps to build social capital and create community cohesion. It plays a vital role in the delivery of key public services. Through volunteering, individuals are able to 'give something back' to the community. Volunteering is also good for the volunteer: it helps improve health and well-being, helps counter loneliness and exclusion and can be significant in a personal journey of growth and development. For some it is a pathway to employment.

This Charter demonstrates the value and importance that both WCVA and Wales TUC place on voluntary activity and volunteers. Both organisations are rooted in the volunteering tradition of Wales and are founded on common values. The trade union movement itself is built on the involvement and engagement of volunteers.

## Working together

WCVA and Wales TUC acknowledge that relations between paid staff and volunteers are generally harmonious and mutually rewarding. They can, however, be further enhanced by good procedures, clarity of respective roles, mutual trust, respect and support.

This Charter sets out key principles underpinning good relations in the workplace. It is offered as a guide to individual organisations in developing policies and procedures that reflect local needs and circumstances. This should be done, wherever possible, through consultation between those who manage or support volunteers, trustees/management board and local union representatives. The support of staff at all levels of the organisation well help to ensure the success of a volunteer programme.

## Charter principles

- Volunteering is undertaken by choice. Individuals have the right to volunteer, or indeed not to volunteer
- While volunteers should not normally receive or expect financial rewards or incentives, they should be re-imbursed for reasonable out of pocket expenses
- The contribution of volunteers and paid staff should complement one another. Volunteers should not be used to replace paid staff or to undercut their pay and conditions of service. Volunteers should enhance the quality of an organisation's activities
- Where there is a contract for service delivery, volunteering should be expressly included in the contract. Volunteer involvement should not, however, be solely used as a means of reducing staffing costs
- It should be clearly established how the individual meets the criteria for 'worker', 'volunteer' or voluntary worker' as outlined in the National Minimum Wage Regulations. This should equally apply where the individual is undertaking a role in an internship capacity
- Effective mechanisms should be in place to support and develop volunteers; these should be considered and costed when volunteering projects are being planned
- Volunteers and paid staff should be given opportunities to contribute to the development of volunteering policies and procedures
- Volunteers and paid staff should be able to carry out their duties in safe, secure and healthy environments that are free from harassment, intimidation, bullying, violence and discrimination. All should be treated sensitively with regard to their preferred language
- Volunteers and paid staff both should have access to appropriate opportunities for learning and development.
- There should be a recognised process for the resolution of problems, for both staff and volunteers
- Volunteers should not be used to undertake the work of paid staff in the case of industrial disputes

*This Charter stands between WCVA and Wales TUC as a statement of principles and good practice. It is commended for use by individual unions, volunteer involving organisations in public, third and private sectors and other bodies, to stimulate discussion and good practice regarding the appropriate, harmonious and mutually rewarding involvement of volunteers.*


Wales TUC Cymru,
1 Cathedral Road,
Cardiff, CF11 9SD

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Wales Council for Voluntary Action,
Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff, CF10 5FH
Helpdesk 0800 2888 329. Registered charity number 218093.
Company limited by guarantee 425299. March 2011

# Siarter ar gyfer Cryfhau'r Cysylltiadau Rhwng Staff Cyflogedig a Gwirfoddolwyr

Mae'r Siarter hon yn nodi'r egwyddorion allweddol ar gyfer trefnu gwaith gwirfoddol ac yn disgrifio'r seiliau ar gyfer sicrhau perthnasau ystyrlon rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Cafodd ei datblygu ar y cyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Chyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru).

Mae gwaith tâl yn unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni ar gyfarwyddyd cyflogwr ac y telir arian yn gyfnewid amdano. Mae gwaith gwirfoddol yn cael ei wneud yn ddi-dâl, nid ar gyfer elw ariannol; y mae'n cynnwys ymrwymiad o ran amser ac egni er budd y gymdeithas.

## Ein traddodiad gwirfoddol

Mae yna draddodiad cryf yng Nghymru o gyd-gefnogaeth a dwyochredd (reciprocity). Mae hyn wrth wraidd ein gwead cymdeithasol.

Amcangyfrifir bod rhyw 1.1miliwn o bobl yn gwirfoddoli gyda sefydliad bob blwyddyn, gan gyfrannu tua £1.6bn at economi Cymru (Adnodd Ystadegol WCVA 2010). Mae gwirfoddoli yn helpu i hybu cyfalaf cymdeithasol ac i ddatblygu cydlyniad cymunedol (community cohesion). Mae'n chwarae rhan hanfodol yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus allweddol. Trwy wirfoddoli, mae unigolion yn gallu 'rhoi rhywbeth yn ôl' i'r gymuned. Mae gwirfoddoli hefyd o fudd i'r gwirfoddolwr: mae'n helpu i gynnal iechyd a theimlad o hunan-les, yn gyfraniad at y frwydr yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd a gall chwarae rhan bwysig yn natblygiad a thwf personol unigolion. I rai, mae gwirfoddoli yn llwybr sy'n arwain at gyflogaeth.

Mae'r Siarter hon yn dangos gwerth a phwysigrwydd gweithgarwch gwirfoddol a gwirfoddolwyr i'r WCVA a TUC Cymru fel ei gilydd. Mae'r ddau sefydliad wedi eu gwreiddio yn nhraddodiad gwirfoddol Cymru ac maent yn seiliedig ar werthoedd cyffredin. Mae'r mudiad undebau llafur ei hun yn seiliedig ar gysylltiad agos â gwirfoddolwyr

## Gweithio gyda'n gilydd

Mae WCVA a TUC Cymru yn cydnabod bod y berthynas rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn un o gytgord yn gyffredinol ac yn destun boddhad i'r ddau grŵp fel ei gilydd. Fe all gweithdrefnau clir, eglurder wrth ddisgrifio swyddogaethau priodol, cyd-ymddiriedaeth, parch a chefnogaeth ategu a hybu'r berthynas honno.

Mae'r Siarter hon yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i berthnasau daionus yn y gweithle. Fe'i cynigir fel arweiniad i sefydliadau unigol wrth iddyn nhw ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol. Dylid ymwneud â'r broses hon, lle bynnag y bydd yn bosib, drwy sicrhau bod yna ymgynghori rhwng y rhai sy'n rheoli neu'n gofalu am wirfoddolwyr, ymddiriedolwyr/aelodau bwrdd rheoli a chynrychiolwyr undeb lleol. Bydd cefnogaeth gan staff o bob lefel yn y sefydliad yn helpu i sicrhau llwyddiant y rhaglen wirfoddol.

## Egwyddorion y Siarter

- Mae gwirfoddoli yn weithred a ddewisir. Mae gan unigolion yr hawl i wirfoddoli, neu'r hawl, yn wir, i beidio â gwirfoddoli
- Er na ddylai gwirfoddolwyr ddisgwyl neu dderbyn tâl neu gymhellion ariannol eraill, dylid ad-dalu iddynt gostau neu dreuliau rhesymol
- Dylai cyfraniadau gwirfoddolwyr a staff cyflogedig ategu'i gilydd. Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i gymryd lle staff cyflogedig neu i danbrisio cyflogau neu amodau gwasanaeth. Dylai gwirfoddolwyr wella ansawdd y gwaith a gyflawnir gan sefydliad
- Lle mae yna gytundeb ar gyfer darparu gwasanaethau, dylid cynnwys gweithgareddau gwirfoddol yn benodol yn y cytundeb hwnnw. Ni ddylid cynnwys gwirfoddolwyr, fodd bynnag, fel modd o leihau costau staffio yn unig.
- Dylid nodi'n glir sut y mae unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer 'gweithiwr', 'gwirfoddolwr' neu 'weithiwr gwirfoddol fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau ar Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Dylid gwneud hyn hefyd pan fydd unigolyn yn cymryd rhan mewn cyfnod o brofiad gwaith (internship)
- Dylai mecanweithiau effeithiol fod yn weithredol i gefnogi a datblygu gwirfoddolwyr; dylai'r rhain gael eu hystyried a'u costio wrth fynd ati i gynllunio prosiectau gwirfoddol
- Dylai gwirfoddolwyr a staff cyflogedig gael cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygiad polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwirfoddoli
- Dylai gwirfoddolwyr a staff cyflogedig fod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau mewn amgylcheddau diogel a iach, heb orfod dioddef bygythiad, ymddygiad aflonyddus, bwlio, trais neu ragfarn. Dylid trin pobl â sensitifrwydd, parthed eu dewis iaith
- Dylai fod yna gyfleoedd priodol i wirfoddolwyr a staff cyflogedig ymwneud â phrosesau ar gyfer dysgu a datblygu.
- Dylai fod yna broses gydnabyddedig ar gyfer datrys problemau, i staff a gwirfoddolwyr fel ei gilydd.
- Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i gyflawni gwaith staff cyflogedig mewn achos o anghydfod diwydiannol.

*Mae'r Siarter hon rhwng y WCVA a TUC Cymru yn ddatganiad o egwyddorion ac arferion da. Fe'i hargymhellir at ddefnydd undebau unigol, gan gynnwys sefydliadau sy'n gwneud defnydd o wirfoddolwyr yn y sector cyhoeddus, yn y trydydd sector a'r sector preifat ynghyd â chyrff eraill. Fe'i bwriedir i hybu trafodaeth ac arferion da parthed cyfranogiad priodol, cytûn a boddhaus gan wirfoddolwyr.*

Wales TUC Cymru,
1 Cathedral Road,
Caerdydd, CF11 9SD

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru / Wales Council for Voluntary Action (WCVA)
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru,
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH,
Lein Gymorth 0800 2888 329. Elusen gofrestredig rhif 218093.
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299. Mawrth 2011